# Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru
# Cofnodion y Cyfarfod

WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
Dydd Iau 08 Tachwedd 2018 – 9:30-12:30

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| David | Cook (DC) | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Aaron | Fortt (AF) | Llywodraeth Cymru |
| Chris | O'Brien (CO'B) | RSPCA Cymru |
| Glyn | Jones (GJ) | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Sue | Leake (SL) | Llywodraeth Cymru |
| Chelsie | John (CJ) | Llywodraeth Cymru (Cofnodion) |
| Alex | Osmond (AO) | The Wallich |
| Judith | Stone (JS) | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Clare | Sain-ley-Berry (CS) | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Hade | Turkmen (HT) | Chwarae Teg |
| **Cyflwynwyr** | | |
| Don | A'Bear (DA'B) | Llywodraeth Cymru |
| Scott | Clifford (SC) | Llywodraeth Cymru |
| Rachel | Lloyd (RL) | Llywodraeth Cymru |
| Steve | Hughes (SH) | Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Paul | Glaze | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| Catrin | James | Urdd Gobaith Cymru |
| Martin | Fidler Jones | Gofal Canser Tenovus |
| David | James | Cynghorau Sir Mynwy a Phowys |
| Carys | Moseley | Cytûn |
| Rhodri | Bowen | People & Work |
| Fiona | Liddell | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| John | Gossage | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |

| **Pwyntiau gweithredu** | | |
|---|---|---|
| 1 | Croeso a chyflwyniadau | Glyn Jones, Llywodraeth Cymru |
| Rhoddodd GJ ymddiheuriadau ar ran y rhai na allent fynychu'r cyfarfod ac eglurodd y byddai pob cyflwyniad PowerPoint yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod. | | |
| 2 | Papurau: Cofnodion a chamau gweithredu, cylchlythyr Chwarterol ar Ystadegau, demograffeg a'r Cyfrifiad | Glyn Jones, Llywodraeth Cymru |
| Nodwyd y diweddariad ystadegau chwarterol a'r .cylchlythyr demograffeg<br><br>Cam Gweithredu 2: Esboniodd SL y byddai'n dod yn ôl i'r grŵp y mis hwn ar y pwnc a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ar ystadegau etholiadol.<br><br>Cam Gweithredu 9: Roedd SL wedi holi ynglŷn â'r offeryn 'Dangos Llwyddiant' a nododd ei bod yn credu iddo gael ei ddefnyddio yn y gorffennol ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach. Aros am eglurhad o hyn.<br><br>Nododd JS eu bod yn gweithio gydag Inspiring Impact Wales sy'n cefnogi elusennau i fesur a gwerthuso effaith. Mae yna gyfleoedd hyfforddi ar gael. Dywedodd GJ y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno cael mwy o wybodaeth am y dyddiadau sydd ar gael gan y byddai o ddiddordeb i Ymchwilwyr Cymdeithasol.<br><br>Cam Gweithredu 12: Dywedodd SL fod y syniad o is-gyfrifon ar gyfer gofalwyr bellach wedi'i godi gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br><br>Cam Gweithredu 13: Nododd GJ a SL y byddent yn hoffi clywed os oedd gan unrhyw un o'r grŵp ddiddordeb mewn amcanestyniadau neu wybodaeth ynglŷn â ffrydiau.<br><br>Cam Gweithredu 14: Dywedodd GJ y byddai'n codi'r mater hwn gydag eraill o fewn y Gwasanaethau Ystadegol.<br><br>Cam Gweithredu 17: Dywedodd CS ei bod wedi bod mewn cysylltiad â SC a bod enghraifft o ymchwil ar Gostau Iechyd Meddwl bellach wedi'i ddarparu. Cam gweithredu wedi'i gwblhau.<br><br>Diweddariad ar raglen y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol a chymorth Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i'r trydydd sector. Dywedodd JS fod y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol wedi cynnal eu digwyddiadau yn y WCVA, i esbonio eu cynllun i gefnogi'r Trydydd Sector gyda chyngor *pro-bono*, ond awgrymodd y dylai'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol a'r ONS gynnal sesiwn ar y cyd i esbonio beth yn union sy'n cael ei gynnig, efallai yn Gofod 3. GJ wedi diweddaru ar Gynllun Gwirfoddolwyr Dadansoddol Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.<br><br>Roedd unrhyw geisiadau yn cael eu prosesu a'r broses yn mynd rhagddi o baru dadansoddwyr gwirfoddol y llywodraeth gyda'r sefydliadau sy'n gwneud cais. Dywedodd HT fod Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn llawer cliriach na'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol yn eu hesboniad o sut maen nhw'n helpu. Credai ei bod yn rhaglen ddefnyddiol. | | **Cam Gweithredu**: SL i ddod yn ôl i'r grwp ar ystadegau etholiadol.<br><br>**Cam Gweithredu:** JS i ddarparu gwybodaeth am ddyddiadau hyfforddiant wrth Inspiring Impact Wales<br><br>**Cam Gweithredu**: GJ i rannu gydag eraill yn adran Gwasanaethau Ystadegol Llywodraeth Cymru y materion a godwyd gyda'r broses o lenwi arolwg defnyddwyr Llesiant Cymru<br><br>**Cam Gweithredu**: JS i fynd ar drywydd trefnu sesiwn RSS ac ONS yn Gofod 3 |

| | | |
|---|---|---|
| *Diweddariad Ystadegau Chwarterol Cymru*<br>Tynnodd GJ sylw at rai eitemau o fewn Diweddariad Ystadegau Chwarterol Cymru.<br>Tai - Cwblhawyd y gwaith maes ar gyfer Arolwg Cyflwr Tai Cymru a'r flaenoriaeth yw cyhoeddi'r prif ganlyniadau yn ogystal ag ystadegau tlodi tanwydd.<br>Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai a SL i'w ddosbarthu.<br><br>Iechyd – Mae offeryn Power BI newydd yn cael ei ddefnyddio i helpu defnyddwyr gael mynediad i ddata o amrywiaeth o ffynonellau<br><br>Addysg – Datblygwyd offeryn Prentisiaeth Newydd i gynhyrchu ystadegau chwarterol ar brentisiaethau fesul rhywedd, ethnigrwydd etc.<br><br>Mae dangosfwrdd ar ddamweiniau ffyrdd wedi'i gyhoeddi ar-lein yn seiliedig ar gofnodion damweiniau unigol. Mae'n cynnwys, er enghraifft, faint o gerbydau oedd yn rhan o'r ddamwain etc.<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) – cyhoeddwyd Syllwr Canlyniadau defnyddiol er mwyn gweld gwahanol ddadansoddiadau o ddata ACC. Byddai gan GJ ddiddordeb i wybod os oedd aelodau'r grŵp wedi ei ddefnyddio. | | **Cam Gweithredu**: GJ i anfon dolen ar gyfer y [dangosfwrdd ar ddamweiniau ffyrdd]<br><br>**Cam Gweithredu**: Pawb i roi gwybod i GJ os ydynt yn defnyddio syllwr canlyniadau ACC |
| 3 | Adroddiad Llesiant Cymru a cherrig milltir cenedlaethol | Glyn Jones, Llywodraeth Cymru |
| Rhoddodd GJ grynodeb byr o adroddiad Llesiant Cymru a nododd fod yr ail adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Medi 2018.<br>Soniodd am bwysigrwydd y dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir i asesu cynnydd Cymru tuag at ei nodau.<br>Mae naratif wedi'i baratoi ar bob un o'r saith nodau Llesiant sy'n egluro beth mae'r data yn ei ddangos am gynnydd Cymru tuag at ei nodau.<br><br>Nododd fod rhywfaint o'r data heb ei ddiweddaru ers yr adroddiad blaenorol.<br><br>Prif ffocws yr adroddiad blaenorol oedd oedolion 16 ac uwch. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys mwy am lesiant plant gyda llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (RhYIY). Mae adroddiad ar wahân ar gael - <u>Llesiant Cymru 2017-18: Beth ydym ni'n ei wybod am lesiant plant?</u><br>Dywedodd SL, os oes modd, y byddai dadansoddiad fesul rhywedd ar gael ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol.<br><br>Aeth GJ drwy brif negeseuon yr adroddiad.<br><br>Soniodd CS am yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau bioamrywiaeth yn Llesiant Cymru sydd ddim yn cyfleu graddfa a chyflymder y newid. Dyw dweud bod bioamrywiaeth wedi gostwng ddim yn cael yr un effaith â dweud, er enghraifft, bod gostyngiad o 35 y cant mewn rhywogaethau â blaenoriaeth. Nododd GJ a SL yr adborth hwn.<br><br>Dywedodd GJ y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar unrhyw bwnc o ddiddordeb ar gyfer yr adroddiad llesiant nesaf.<br><br>Yna trafododd GJ y cerrig milltir cenedlaethol y mae'n ofynnol eu pennu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid oes gofyniad am garreg filltir genedlaethol ar gyfer pob dangosydd gan na fyddai rhai yn gwneud | | **Cam Gweithredu**: SL i anfon dolen o ba ddadansoddiad rhywedd sydd ar gael ar gyfer dangosyddion llesiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| synnwyr neu'n anodd penderfynu arnyn nhw e.e. bioamrywiaeth. Disgwylir i ymgynghoriad ar Gerrig Milltir Cenedlaethol gael ei gyhoeddi yn yr hydref gan gynnwys y meini prawf i benderfynu pa ddangosyddion ddylai gael cerrig milltir. Bydd yn para am 12 wythnos.<br><br>Y nod yw gwneud gwelliannau i'r dangosyddion yn dilyn yr ymgynghoriad hwn os bydd pobl yn gweld yr angen am hynny. Bydd cwestiynau'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ynglŷn ag unrhyw newidiadau a awgrymir i ddangosyddion.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut gallai'r WCVA hwyluso mudiadau' trydydd sector i ddeall mwy am adroddiad Llesiant Cymru. Cytunodd JS i hyrwyddo unrhyw flog y mae GJ wedi'i baratoi am yr adroddiad. Awgrymwyd gweminar ar y pwnc hefyd, wedi'i hwyluso gan y WCVA, yn ogystal â rhannu gwybodaeth drwy ddigwyddiadau fel Gofod 3.<br><br>Nododd GJ fod y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau bellach yn asesu'r adroddiad a'r dangosyddion cenedlaethol. Mae arolwg defnyddwyr ar-lein. Byddai'n dda derbyn adborth gan unrhyw un sydd wedi defnyddio'r adroddiad a'r dangosyddion. | | | <br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Cam Gweithredu**: GJ i drafod ymhellach y syniad o weminarau a rhannu gwybodaeth drwy Gofod 3. |
| 4 | Hwb Data y Trydydd Sector | | Judith Stone,<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Dywedodd JS fod y WCVA yn cyflwyno Hwb Data y Trydydd Sector mewn partneriaeth â Data Cymru. Fe'i lansiwyd yn Gofod 3 (Mawrth 2018).<br><br>Esboniodd fod eu gwaith yn cael ei wneud gyda ffynonellau cyfredol o ddata perthnasol sydd yna'n cael eu defnyddio i fwydo'r Hwb Data. Mae'n cynnwys data ar sefydliadau, cyflogaeth a phobl sy'n gwirfoddoli. Mae rhai o'r setiau data hyn yn gadarn, ond mae rhai yn dal i fod yn y cyfnod datblygu.<br><br>Y flwyddyn nesaf bydd yr hwb data yn datblygu ac yn dod â data o'r CRM at ei gilydd.<br><br>Daw'r data gwirfoddoli o'r NCVO, a bydd yr adran ar Gymru yn cael ei datblygu ymhellach.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r WCVA yn y broses o gael data penodol gan y Comisiwn Elusennau, e.e. ar elusennau cofrestredig.<br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha ddata allai fod ar gael ar gyllid llywodraeth leol ar gyfer y Trydydd Sector a chytunodd GJ i holi a oedd unrhyw beth ar gael o'r ystadegau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllid Llywodraeth Leol.<br><br>Amlinellodd JS rywfaint o'r wybodaeth allweddol sy'n cael ei chynnwys yn yr Hwb Data, e.e. nifer o oriau sy'n cael eu gwirfoddoli, incwm elusennau, sectorau allweddol etc. Er enghraifft, roedd rhoi cyhoeddus wedi cynyddu tra bod cefnogaeth y Sector Cyhoeddus wedi lleihau.<br><br>Roedd rhywfaint o ymchwil yn cael ei wneud mewn perthynas â chysondeb y diffiniadau a ddefnyddir wrth gasglu data gwirfoddoli, gan nad yw'r term gwirfoddoli yn cael ei weld fel yr un peth gan bawb. Ni fyddai llawer o bobl yn dweud eu bod yn gwirfoddoli er eu bod yn cwblhau nifer o weithgareddau gwirfoddol, e.e. Gwirfoddolwyr Cymraeg | | | **Cam Gweithredu**: GJ i holi a oedd data ar gyllid Llywodraeth Leol ar gyfer y Trydydd Sector ar gael ymhlith ystadegau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllid Llywodraeth Leol.<br><br>. |

| | | |
|---|---|---|
| eu hiaith. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o gysondeb. Gofynnodd GJ i bobl anfon unrhyw adborth ato.<br><br>O ran cyflogaeth gan elusennau/mudiadau’r trydydd sector, mynegodd aelodau ddiddordeb mewn dadansoddiad fesul ethnigrwydd a fesul patrwm gwaith (llawn amser/rhan-amser). Nododd CO'B ei bod yn bwysig cynnwys gwybodaeth am elusennau'r DU oedd â hunaniaeth Gymreig.<br><br>Dywedodd JS y bydd y blaenoriaethau cyfredol yn ymgorffori Data y Comisiwn Elusennau ac arolwg o ddefnyddwyr yr Hwb Data. | | **Cam Gweithredu**: JS i ymchwilio a allai’r Hwb Data ddangos y dadansoddiad o’r data cyflogaeth y gofynnwyd amdani. |
| 5 | Ystadegau Addysg | Don A’Bear, Rachel Lloyd, Steve Hughes, Llywodraeth Cymru |
| Rhoddodd D A'B, RL a SH gyflwyniadau ar yr Ystadegau Cymreig sydd ar gael ar Addysg Uwch, Addysg Ôl-16 ac Ysgolion.<br><br>Mae rhywfaint o ddata ar gael ar Waith Ieuenctid a allai fod o ddiddordeb i fudiadau'r Trydydd Sector.<br><br>Bydd Cyfrifiad newydd neu ddata gweithlu ysgolion yn cael ei gyflwyno o fis Tachwedd 2019 a fydd yn cynnwys gwirfoddolwyr.<br><br>Y nod yw sicrhau bod allbynnau ystadegol yn y dyfodol yn fwy hygyrch. Os bydd unrhyw un yn defnyddio'r data, byddai'r adborth yn ddefnyddiol.<br><br>Awgrymodd JS y byddai'n ddefnyddiol codi ymwybyddiaeth o argaeledd y data hwn ar addysg ac y gallai fod yn ddefnyddiol i’r WCVA a'r Trydydd Sector. Roedd potensial i ddefnyddio cylchlythyrau rheolaidd y WCVA i wneud hyn.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau sut gallent gael gafael ar ddata sy'n benodol i'w meysydd nhw, e.e. ar bynciau addysg uwch fesul rhywedd ac ethnigrwydd. Nododd DA y gallai Aelodau gysylltu os oes ganddynt geisiadau penodol. Roedd yna ddiddordeb hefyd ynghylch a oedd data gwirfoddoli ymhlith myfyrwyr ar gael fesul sector y gellid ei ddefnyddio gan y WCVA. DA i weld os oedd data o'r fath ar gael. | | **Cam Gweithredu**: DA i weld os oes data ar wirfoddoli ymhlith myfyrwyr fesul sector. |
| 6 | Ymgynghoriad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Scott Clifford, Llywodraeth Cymru |
| Mae ymgynghoriad ar agor ar hyn o bryd ynglŷn â dangosyddion arfaethedig ar gyfer y diweddariad nesaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2019. Mae'r Ymgynghoriad ar ddangosyddion yn cael ei gynnal rhwng **22 Hydref a 17 Rhagfyr**. Cynhelir gweminarau ar **7 Tachwedd a 3 Rhagfyr.**<br><br>Aeth SC drwy rai o'r prif gynigion ar gyfer yr wyth grŵp parth sy'n rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.<br><br>Dywedodd CS bod un o'r astudiaethau y cyfeiriwyd ati yn adran amgylchedd ffisegol yr ymgynghoriad yn dyddio o 2003, a holodd pam na ddefnyddiwyd astudiaethau mwy diweddar. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i gael data ar gyfer y parth hwn a bydd yn ceisio defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y diweddariad nesaf. Gwnaeth CS hefyd sylwadau ar yr iaith a ddefnyddiwyd a phwysoli'r amgylchedd ffisegol gyda mathau eraill o | | **Cam Gweithredu**: SC i roi adborth ynglŷn â’r ffaith y cyfeiriwyd at astudiaeth o 2003 yn yr adran parth amgylchedd ffisegol o ymgynghoriad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |

<table>
<tr><td colspan="2">amddifadedd y gallai ardaloedd eu profi. Atebodd GJ fod y Parth Amgylchedd Ffisegol yn cydnabod bod hyn yn agwedd ar amddifadedd ond bod y pwysoliad hwnnw'n cynrychioli barn gytbwys ar effaith parthau eraill mewn amddifadedd lluosog cyffredinol ac yn cael fawr ddim effaith ar brif gynllun Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.<br><br>Awgrymodd CS y dylid ystyried ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol e.e. canolbwyntio ar yr hirdymor a dulliau atal wrth ystyried pwysoli parthau.<br><br>Holodd HT a gafodd gofal plant ei ystyried yn y parth Mynediad at Wasanaethau. Awgrymodd SC y gellid ystyried hyn pe bai ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu ei fod yn bwysig. Fodd bynnag, nododd SL a GJ fod angen i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ganolbwyntio ar wasanaethau y mae angen mynediad ar y rhan fwyaf o bobl, ac oherwydd bod rhywbeth ddim yn cael ei gynnwys yn y Mynegai, dyw hynny ddim yn golygu na chaiff ei fesur.</td><td></td></tr>
<tr><td>7</td><td>Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf</td><td>Glyn Jones, Llywodraeth Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dywedodd GJ fod gwaith yn digwydd gyda'r Sefydliad Materion Cymreig ac Ymddiriedolaeth Carnegie i greu offeryn o'r enw Deall Lleoedd Cymru (yn seiliedig ar waith tebyg yn yr Alban o'r enw Understanding Scottish Places). Mae'r offeryn yn eich galluogi i ddod i wybod am le o ddiddordeb penodol. Yn benodol, gallwch ddarganfod am leoedd dros 1,000 o bobl, ond gellir dod o hyd i fwy o ddata os yw'r boblogaeth yn uwch na 1,500 gan y gellid defnyddio data pellach o'r Cyfrifiad yn ogystal â data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gallai helpu i ddangos rhyng-ddibyniaeth rhwng y gwahanol leoedd. Os yw hyn o ddiddordeb, gallai GJ ddod â rhagor o wybodaeth i gyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Cynigiodd GJ sefydlu grŵp llywio gydag aelodau o'r WCVA ac adran Ystadegau Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer y cyfarfod sydd ar y gweill, gan gynnwys trafodaeth ynghylch a fyddai'n ddefnyddiol cael cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Hoffai GJ glywed am y data y mae sefydliadau eraill yn ei gadw neu'n ei ddefnyddio. Awgrymodd AO y gallai roi diweddariad ar y data ar ddigartrefedd y mae'r Wallich yn ei ddefnyddio.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â defnyddio Gweminarau a Gofod 3 i helpu mudiadau'r trydydd sector i ganfod a defnyddio gwybodaeth ystadegol. Cynigiodd SL/GJ y gallai ystadegwyr Llywodraeth Cymru gynnal gweithdai yn Gofod 3 lle gall mudiadau ofyn cwestiynau ynglŷn â sut i ddod o hyd i'r data y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo. Nododd JS y byddai cyflwyniad yn ddefnyddiol i ddangos uchafbwyntiau'r data llesiant.</td><td>Cam Gweithredu: Ychwanegu 'Deall Lleoedd Cymru' i agenda yn y dyfodol.<br><br>Cam Gweithredu: GJ i greu grŵp llywio drwy gyfuno mudiadau a chynllunio ar gyfer cyfarfodydd sydd ar y gweill. (Y nod yw creu grŵp llywio cyn y Nadolig ar gyfer sesiynau yn 2019)<br><br>Cam Gweithredu: AO i roi diweddariad ar ddata digartrefedd y mae'r Wallich yn ei ddefnyddio yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cam Gweithredu: GJ i gytuno â'r WCVA pa gyflwyniadau/ gweithdai a allai fod yn ddefnyddiol i Gofod 3 a JS i rannu gwybodaeth ar ba weminarau y bydd y WCVA yn eu cynnal.</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Unrhyw fater arall</td><td>Glyn Jones, Llywodraeth Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni chodwyd unrhyw fater o bwys.</td><td></td></tr>
</table>

| Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru<br>08 Tachwedd 2018<br>Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu | | |
|---|---|---|
| 1 | SL i ddod yn ôl i'r grwp ar ystadegau etholiadol. | Sue Leake |
| 2 | JS i ddarparu gwybodaeth am ddyddiadau hyfforddiant wrth Inspiring Impact Wales | Judith Stone |
| 3 | GJ i rannu gydag eraill yn adran Gwasanaethau Ystadegol Llywodraeth Cymru y materion a godwyd gyda'r broses o lenwi arolwg defnyddwyr Llesiant Cymru | Glyn Jones |
| 4 | JS i fynd ar drywydd trefnu sesiwn gyda'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ac ONS yn Gofod 3 | Judith Stone |
| 5 | GJ i anfon y ddolen ar gyfer y dangosfwrdd ar ddamweiniau ffyrdd | Glyn Jones |
| 6 | Pawb i adael i GJ wybod a ydynt yn defnyddio'r syllwr canlyniadau NSW | Pawb |
| 7 | SL i anfon dolen o ba ddadansoddiad rhywedd sydd ar gael ar gyfer dangosyddion llesiant | Sue Leake |
| 8 | GJ i drafod ymhellach y syniad o weminarau a rhannu gwybodaeth drwy Gofod 3. | Glyn Jones |
| 9 | GJ i holi a oedd data ar gyllid Llywodraeth Leol ar gyfer y Trydydd Sector ar gael ymhlith ystadegau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyllid Llywodraeth Leol. | Glyn Jones |
| 10 | JS i ymchwilio a allai'r Hwb Data ddangos y dadansoddiad o ddata cyflogaeth y gofynnwyd amdani. (e.e. fesul ethnigrwydd a phatrymau gwaith) | Judith Stone |
| 11 | DA i weld os oes data ar wirfoddoli ymhlith myfyrwyr fesul sector. | Don A'Bear |
| 12 | SC i roi adborth ynglŷn â'r ffaith y cyfeiriwyd at astudiaeth o 2003 yn yr adran parth amgylchedd ffisegol o ymgynghoriad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Scott Clifford |
| 13 | Ychwanegu 'Deall Lleoedd Cymru' i agenda yn y dyfodol. | Glyn Jones/ Ysgrifenyddiaeth |
| 14 | GJ i greu grŵp llywio drwy gyfuno mudiadau a chynllunio ar gyfer cyfarfodydd sydd ar y gweill. (Y nod yw creu grŵp llywio cyn y Nadolig ar gyfer sesiynau yn 2019) | Glyn Jones |
| 15 | AO i roi diweddariad ar ddata digartrefedd y mae'r Wallich yn ei ddefnyddio yn y cyfarfod nesaf. | Alex Osmond |
| 16 | GJ i gytuno â'r WCVA pa gyflwyniadau/ gweithdai a allai fod yn ddefnyddiol i Gofod 3 a JS i rannu gwybodaeth ar ba weminarau y bydd y WCVA yn eu cynnal. | Judith Stone |